

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

2/11/2017

Presennol: Y Maer Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Sharon Evans, Dilys Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Edith Roberts, Carol Rowlands, Lis Puw (*Clerc*).

Ymddiheuriadau: Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*) Absennol: Eifion Roberts

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i'r heddweision. Adroddwyd y bu gwasanaeth arbennig wrth y Gilfach Goffa i lansio'r ymgyrch gwerthu pabi gan y Lleng Prydeinig a diolchodd i'r Dirprwy Faer, Cynghorwyr ac i aelodau Clwb Beicio Modur Y Bala am eu presenoldeb.
2. **Cyhoedd:** Derbyniwyd cyflwyniad Gethin Jones, Arolygydd Ardal De Gwynedd o Heddlu Gogledd Cymru. Manylodd yn arbennig ar ymdrechion yr Heddlu i ddelio gyda phroblemau cyffuriau yn yr ardal ac anogodd aelodau o'r cyhoedd i ffonio 101 (*neu 999 os oes plentyn neu berson bregus mewn perygl*) gyda manylion am bobol, lleoedd ac amseroedd, rhifau ceir ac yn y blaen. Hyd yn oed os nad ydyw heddwys yn gallu bod yn bresennol ar y funud honno, dywedodd fod yr wybodaeth yn cael ei gadw'n ofalus ac yn cyfrannu at greu darlun defnyddiol ar gyfer camau pellach. Cynigodd i'r Heddweision sydd yn gweithio allan o orsaf yr Heddlu yn Y Bala i fynychu cyfarfodydd o'r Cyngor er mwyn i'r Cynghorwyr ddod i'w hadnabod. Adroddodd PCSO Iwan Roberts a Lona Davenport fod Cyngor Gwynedd yn ymateb i gwynion am barcio ac yn bwriadau ychwanegu mwy o linellau melyn dwbl.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/10/17.
5. **Materion y Clerc:** Ymatebodd Cyngor Gwynedd i bryderon am barcio yn y Parc Menter a chais am linellau melyn dwbl trwy ddweud y bydd y cais yn derbyn ystyriaeth.
6. **Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir trwy e-bost. Dywedodd ei fod yn cyd-weithio gyda'r ysgolion i adnabod manau lle mae sbwriel, graffiti, arwyddion budr ac yn y blaen. Bydd yr awdit cymunedol hwn yn cael ei gyflwyno i grŵp cymunedol o dan adain Cadw Cymru'n Daclus a fydd yn taclo'r gwaith. Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan hefyd yn gweithio i gael adfer y goleuadau Nadolig ar goed y

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)

Stryd Fawr. Nid ydyw NMWTRA wedi dynodi'r safle parcio i'r anabl wrth yr Eglwys Gatholig hyd yn hyn ac mae hyn yn rhwystro symud ymlaen i gael lloches bws wrth law. Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei adroddiad ac am ei waith.

7. **Toiledau Cyhoeddus:** Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant ar gyfer gwella toiledau'r Grîn. Dymuniad y Cyngor ydyw cael copi o'r ffurflen gais, mewnbwn i'r cynlluniau gwella a manylion am amserlen y gwaith.
8. **Un Llais Cymru:**
 - i. Cytunodd Sharon Evans a Dilys Evans i gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ardal ar 28/11/17 yn y Llyfrgell Rydd yn Nolgellau.
 - ii. Derbyniwyd adroddiad Cynghorwyr o'r Hyfforddiant diweddar.
9. **Llwybr glan yr afon:** Dewiswyd 3 mainc a lleoliadau i'w gosod. Diolchwyd i Eluned Jones, Sharon Evans a Carol Rowlands am y lluniau a'r gwaith o ddewis. Bydd Warden Parc Cenedlaethol Eryri yn cynorthwyo i osod y meinciau yn eu lle.
10. **Lloches bws:** Cytunwyd y bydd angen is-bwyllgor i ymwneud a cheisio caniatâd Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer lloches bws ac ymchwilio i ddyluniadau, unwaith y bydd NMWTRA wedi dewis union leoliad y lloches a thrafodaeth wedi digwydd gyda thrigolion cyfagos. Gofynnwyd i'r Clerc anfon at Traws Cymru ac at Arriva i fynegi anfodlonrwydd fod y bysiau ar adegau ddim yn aros i godi teithwyr sydd wrth yr arosfan (cyfeiriad Bala i Wrecsam).
11. **Nadolig:**
 - i. Ystyriwyd sefyllfa'r goleuadau a dynnwyd oddi ar y coed yn y Stryd fawr a mynegwyd pryder am eu cyflwr yn y storfa yn Nolgellau. Mae'r Clerc wedi gwneud cais am drwydded i'w gosod ar y coed, a derbyniwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru fod angen eu tynnu o'r coed bob mis Ionawr,
 - ii Ystyriwyd trefniadau'r Noson Siopa Hwyr.
 - iii Ystyriwyd trefniadau'r Coed Nadolig i'w gosod ar siopau a busnesau yn y Stryd Fawr; mae trefniadau'r tendr a hysbysebwyd llynedd yn parhau ac mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Mr S Wood ar gyfer cyflawni'r coed bach. Cytunwyd i geisio cael coeden Nadolig mwy o faint os na fydd y goleuadau bach yn cael eu rhoi nôl ar y coed sy'n tyfu yn y stryd.
 - iv Cytunwyd i gynnal Cinio Nadolig y Cyngor eleni ym Mhlas yn Dref.
12. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau o'r newydd ond cytunodd y Cyngor i holi am y sefyllfa ac i barhau i fynegi'r un pryderon ag o'r blaen wrth Parc Cenedlaethol Eryri am y storfa olew arfaethedig yn y Parc Menter.
13. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol.
14. **Gohebiaeth:**

- i. **Gwynedd:** Ystyriwyd y pecyn gwybodaeth *Hunaniaith* a chytunwyd i wahodd Ifan Llewelyn Jones i gyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor. Cytunwyd bod angen hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a bod gan y Cyngor Tref rôl i'w chwarae wrth gyfrannu'n ariannol at fudiadau sydd yn ei gwneud yn amcan i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. Tynnir sylw caredig mudiadau a chymdeithasau lleol sydd yn dymuno derbyn nawdd gan y Cyngor Tref i'r amcan hwn wrth iddynt gyflwyno eu ceisiadau i'r Cyngor ar ddechrau mis Chwefror 2018.
 - ii. **Llywodraeth Cymru:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth am yr Arolwg o ffiniau Etholaethol Seneddol a chydnabuwyd gwerth ymdrechion rhai unigolion, Cyngorau a Liz Saville-Roberts AS i sicrhau fod ardal Penllyn yn aros o fewn ffiniau etholaethol seneddol Dwyfor Meirionnydd.
 - b. Cynigiodd y Clerc i roi ystyriaeth i Adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref ar ran y Cyngor ac i fynychu cyfarfod ar y mater os yn gyfleus.
- 15. Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad diweddar gan y cynrychiolwyr.
- 11. Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad ar eu cyflwr.

Amser gorffen 9.30

Cyfarfod nesaf: 6.30pm (sylwer ar yr amser) 14/12/17 yng Nghanolfan Henblas, gyda'r Cinio Nadolig yn dilyn.